OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3274 (Cy.312)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Gwynedd (Newidiadau Etholiadol) 2002

*Wedi'i wneud - - 6 Rhagfyr 2002*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Yn unol ag adrannau 58(1) a 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) cyflwynodd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru gynigion ym Medi 1998 ar gyfer trefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer Sir Gwynedd. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi cytuno â'r cynigion, yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 58(2) a 67(4) a (5) o'r Ddeddf.

(**1**) 1972 p.70.